Senedd Cymru
Ymchwil y Senedd

Sut mae darlledu'n gweithio

Papur briffio

Tachwedd 2026



Rhagor o wybodaeth:
ymchwil.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NS

Tel: **0300 200 6565**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2026
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
Ymchwil y Senedd

Sut mae darlledu'n gweithio

Papur briffio

Tachwedd 2026

Awdur:
Robin Wilkinson

Roedd gan Plaid Cymru, a ffurfiodd Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2026, ymrwymiad yn eu maniffesto ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026 i "weithio tuag at ddatganoli pwerau dros ddarlledu", sydd wedi'i gad yn ôl gan San Steffan. Mae'r ymrwymiad hwn hefyd yn ymddangos yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'r papur hwn yn archwilio sut mae darlledu yng Nghymru yn gweithio ar hyn o bryd.

Rhagor o wybodaeth:
ymchwil.senedd.cymru



Cynnwys

1. Archwilio datganoli darlledu 7

Archwiliad blaenorol o ddatganoli darlledu 7

Comisiwn Silk (2014) 7

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Bumed Senedd (2021) 8

Ymrwymiad Llywodraeth Llafur Cymru (2021) 8

Adroddiad gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (2024) 10

Maniffesto Plaid Cymru a'r ymrwymiad i'r Rhaglen Lywodraethu 10

2. Gwylio a gwrando yng Nghymru 12

Gwylio 12

Gwrando 18

Ar draws y DU, mae gwrando ar radio byw ar set radio yn lleihau yn sgil y cynnydd mewn gwrando ar bodlediadau, radio byw ar-lein a cherddoriaeth wedi'i ffrydio. 18

3. Darlledu gwasanaeth cyhoeddus 20

BBC 20

Cyllid 20

Rheoleiddio 21

Gweithgarwch yng Nghymru 23

Sianel 3 24

Y cefndir 24

Cynnwys i Gymru 24

Cynnwys rhwydwaith wedi'i wneud yng Nghymru 25

S4C 27

Y cefndir 27

Cyllid 27

Perfformiad 28

Radio 29

Radio masnachol 29

Radio cymunedol 31

DAB (Darlledu Sain Digidol) ar raddfa fach 31
4. Ofcom 32
Ofcom yng Nghymru 33
5. Llywodraeth Cymru 34
Gweithgor Newyddiaduraeth Budd y Cyhoedd Cymru 34
6. Dadansoddiad newyddion rhwydwaith 36
7. Digwyddiadau chwaraeon ar restr 38

1. Archwilio datganoli darlledu

Mae darlledu yn fater a gedwir yn ôl, fel yr amlinellir yn **Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**. Mae hyn yn golygu mai Senedd y DU, yn hytrach na'r Senedd, sydd â'r pŵer i ddeddfu ar ddarlledu.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd unrhyw rolau perthnasol. Er enghraifft, mae gan Lywodraeth Cymru Femoranda Cyd-ddealltwriaeth gydag Ofcom a'r BBC. Ymhlith pethau eraill, mae'r rhain yn nodi'r broses i Weinidogion Cymru benodi aelod i Fwrdd Ofcom ac ymrwymo Ofcom a'r BBC i ymddangos gerbron pwyllgorau perthnasol y Senedd. Mae angen i Lywodraeth Cymru, hefyd **gytuno â Llywodraeth y DU ar benodiad aelod o fwrdd y BBC dros Gymru**. Mae rhagor o wybodaeth am weithgarwch Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â darlledu yn adran 5 o'r briff hwn.

Archwiliad blaenorol o ddatganoli darlledu

Roedd gan Plaid Cymru, a ffurfiodd Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2026, ymrwymiad yn eu maniffesto ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026 i "weithio tuag at ddatganoli pwerau dros ddarlledu". Mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei ailadrodd yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae pwy ddylai fod yn gyfrifol am ddarlledu wedi cael ei ystyried nifer o weithiau yn ystod bodolaeth y Senedd. Yn y pen draw, byddai penderfyniad i ddatganoli pwerau dros ddarlledu i'r Senedd yn gofyn am gytundeb Llywodraeth y DU, a chymeradwyaeth Senedd y DU.

Comisiwn Silk (2014)

Sefydlwyd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (a elwir yn aml yn 'Gomisiwn Silk', ar ôl ei gadeirydd, Paul Silk KBC) o ganlyniad i ymrwymiad a wnaed yn y Cytundeb Clymblaid rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn 2010.

Lansiwyd y Comisiwn ym mis Hydref 2011, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a'r dair wrthblaid yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (ar y pryd). Gofynnwyd iddo ystyried sut y gellid newid cwmpas datganoli er mwyn gwasanaethu pobl Cymru yn well.

Cyhoeddodd y Comisiwn ddau adroddiad, yn 2012 a 2014, gyda'r cyntaf yn canolbwyntio ar bwerau ariannol. Roedd y **crynodeb o'r Ail Adroddiad**, a oedd yn ystyried pwerau deddfwriaethol i gryfhau Cymru, yn dweud y canlynol:

Dylai rheoleiddio darlledu barhau'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

O ran y BBC, rydym yn argymell creu corff llywodraethu datganoledig o fewn fframwaith Ymddiriedolaeth y Deyrnas Unedig. Dylai'r corff hwn oruchwylio cynnyrch BBC Cymru a chraffu arno. Dylid penodi cynrychiolydd Cymru ar gorff llywodraethu cyffredinol y BBC drwy gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Er y dylai swmp yr ariannu ar gyfer S4C barhau i ddod drwy ffi'r drwydded, credwn y dylid datganoli'r cyfrifoldeb am yr elfen gwariant cyhoeddus sy'n dod yn uniongyrchol gan y llywodraeth i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Rydym yn gwneud argymhellion hefyd ynglŷn â chynrychioli buddiannau Cymru ar fwrdd Ofcom ac yn awgrymu dulliau mwy effeithiol o fonitro'r cynnydd ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Bumed Senedd (2021)

Yn 2021, cyhoeddodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Bumed Senedd ei adroddiad **"Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?"** Fe wnaeth yr adroddiad ystyried cyflenwad cynnwys i Gymru, cyllid darlledu yng Nghymru ac a oedd angen unrhyw newid rheoleiddiol.

Galwodd am ddatganoli rhagor o bwerau dros ddarlledu i Gymru – gan gynnwys rôl ffurfiol wrth bennu'r ffi drwydded, a chyfrifoldeb dros S4C – ond ni alwodd am ddatganoli darlledu'n llawn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael mewn **erthygl gan Ymchwil y Senedd**.

Ymrwymiad Llywodraeth Llafur Cymru (2021)

Roedd gan y Llywodraeth flaenorol, sef Llywodraeth Llafur Cymru, **Ymrwymiadau rhaglen lywodraethu** (yn dilyn Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru) i gyflawni'r canlynol:

- Mynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli pwerau darlledu a chyfathrebu; a hefyd

- ymchwilio i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru a darparu buddsoddiad ychwanegol i ddatblygu mentrau i wella'r cyfryngau a newyddiaduraeth yng Nghymru.

Ym mis Awst 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad, **Dyfodol newydd ar gyfer darlledu a chyfathrebu yng Nghymru**, gan banel o arbenigwyr. Daeth y panel i'r casgliad a ganlyn, sef bod ar y sector:

> *... bod angen corff annibynnol o arbenigedd ar y sector hanfodol hwn – Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol – i gynyddu tryloywder a gweledded ar lefel Gymreig.*

Roedd yr adroddiad yn rhagweld y byddai'r Awdurdod Darlledu Cysgodol yn costio rhwng £704,000 a £804,000 y flwyddyn i'w redeg.

Ym mis Mawrth 2024, **ymatebodd Llywodraeth flaenorol Cymru i'r adroddiad** a dywedodd y byddai'n gwneud y canlynol:

> *sefydlu Corff Cynghori ar Ddarlledu a Chyfathrebu i ddarparu arweiniad ar ddarlledu a chyfathrebu*

Nid oedd yn glir i ba raddau yr oedd Llywodraeth Lafur flaenorol Cymru wedi mynd ar drywydd datganoli darlledu mewn sgyrsiau â Llywodraeth y DU. Ym mis Tachwedd 2024, **dywedodd y Gweinidog Diwylliant ar y pryd, Jack Sargeant AS, wrth Bwyllgor Diwylliant y Chweched Senedd**:

> *I accept the position of the* (Welsh) *Government, of course, and I don't think I'm saying that I'm against the devolution of broadcasting. I think I'm saying I'd like to do the piece of work around that to form my view and to see where we take this conversation next.*

Mewn **diweddariad gan Lywodraeth Cymru fis Mai 2025 ar ddarlledu a'r cyfryngau dywedodd** Jack Sargeant AS:

> *Rwyf wedi dod i'r casgliad, er mwyn gwneud y mwyaf o adnoddau ac osgoi dyblygu gwaith, y dylai swyddogaeth gynghorol Corff Cynghori ar Ddarlledu a Chyfathrebu yn hytrach gael ei chyflawni drwy sianeli presennol rhwng Cymru Greadigol a rhanddeiliaid darlledu a'r cyfryngau. Byddwn yn ceisio cryfhau'r rhwydweithiau hyn a nodi cyfleoedd penodol i ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd ar faterion unigol, gan adeiladu ar enghreifftiau diweddar fel digwyddiad Cymru Greadigol ac Ofcom ar y cyd i drafod adolygiad Ofcom o Gyfryngau*

> *Gwasanaeth Cyhoeddus. Byddwn yn manteisio ar berthynas fwy cadarnhaol â Llywodraeth y DU i fynd ar drywydd fframwaith cryfach ar gyfer darlledu a mwy o lais i Gymru.*

Ym mis Rhagfyr 2025 cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru gyllid i Brifysgol Aberystwyth archwilio llwybrau i ddatganoli darlledu. Eglurodd yr un datganiad hefyd fod £350,000 o gyllid wedi'i ddyrannu gan Cymru Greadigol i wyth prosiect drwy Gronfa Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd. Mae gwybodaeth am y gronfa ar gael ar **wefan Cymru Greadigol**.

Adroddiad gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (2024)

Yn 2021, cynullodd Llywodraeth flaenorol Llafur Cymru gomisiwn annibynnol, dan gyd-gadeiryddiaeth yr Athro Laura McAllister a chyn Archesgob Caergaint, y Gwir Anrhydeddus Dr Rowan Williams, i ystyried dyfodol cyfansoddiadol y DU a chamau i wella democratiaeth Cymru.

O ran darlledu, **dywedodd** y canlynol:

> *Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gytuno ar fecanweithiau ar gyfer llais cryfach i Gymru ar bolisi, craffu ac atebolrwydd ym maes darlledu, a dylai gwaith cadarn barhau ar lwybrau posibl at ddatganoli.*

Cyhoeddodd y Comisiwn hefyd **adroddiad is-grŵp ar ddarlledu**.

Maniffesto Plaid Cymru a'r ymrwymiad i'r Rhaglen Lywodraethu

Roedd gan Blaid Cymru, a ddaeth yn blaid fwyaf y Senedd ym mis Mai 2026, **ymrwymiadau maniffesto yn yr etholiad hwnnw** i wneud y canlynol:

> *… gweithio tuag at ddatganoli pwerau dros ddarlledu, gan gynnwys pwerau i reoleiddio, goruchwylio a sicrhau atebolrwydd dros ddarlledu a chyfathrebu yng Nghymru.*
>
> *Fel cam dros dro, cyn datganoli'r pwerau hyn, byddwn yn bwrw ymlaen â chynlluniau i sefydlu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru, er mwyn diogelu a chryfhau llwyfannau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus lleol a chenedlaethol yng Nghymru.*

Ailadroddir yr ymrwymiadau hyn yn **Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru** (cyhoeddwyd Medi 2026).

Ym mis Gorffennaf 2026, amlinellodd y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon, Heledd Fychan AS, ei **chynlluniau i sefydlu Awdurdod Darlledu Cysgodol**. Dywedodd y canlynol:

> *rwy'n mynd ati i sefydlu'r Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru yn raddol. Fel cam cyntaf, yn unol ag argymhelliad y Panel Arbenigol, rwy'n sefydlu Gweithgor Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol.*

Trefnwyd y camau recriwtio i'r Gweithgor ar gyfer mis Medi, gyda £45,000 o gyllideb Cymru Greadigol yn 2026-27 wedi'i ddyrannu i ariannu gweithgaredd y flwyddyn ariannol hon.


2. Gwylio a gwrando yng Nghymru

Mae'r tueddiadau eang ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru yn adlewyrchu'r rheini ledled y DU: maent yn gwyro oddi ar ddefnyddio cynnwys pan gaiff ei ddarlledu, i ffrydio cynnwys ar adegau o'u dewis, ac i ffwrdd o ddarlledwyr rheoleiddedig i gynnwys ar-lein heb ei reoleiddio.

Gwylio

Gwylwyr yng Nghymru sy'n gwylio'r mwyaf o gynnwys fideo o blith gwledydd y DU. Mae nifer y munudau dyddiol cyfartalog o deledu darlledu a wylir yng Nghymru yn parhau i ddirywio, fel y mae ledled y DU. Y BBC yw'r gwasanaeth fideo sy'n dal i gael ei wylio fwyaf yng Nghymru, o flaen YouTube, ac yna ITV. Mae defnydd o deledu darlledu yn tueddu'n fawr tuag at gynulleidfaoedd hŷn, er bod pob grŵp oedran yn dangos gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn.


Cyfanswm y munudau gwylio fideo bob dydd yn y cartref fesul person, yn ôl llwyfan a gwlad: 2025



Ffynhonnell: Barb fel y'i gwyliwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n defnyddio rhwydwaith Wi-Fi y cartref. Mae 'cynnwys darlledwyr' yn golygu teledu byw, chwarae'n ôl teledu wedi'i recordio a BVoD. Mae 'defnydd arall o setiau teledu' yn cynnwys gwylio SVoD/AVoD/VSP na ellir eu mesur yn bendant, yn ogystal â rhai sianeli darlledu heb eu mesur, rhywfaint o bori ar yr Amserlen Rhaglenni Electronig/dewislen, gwylio pan fydd y sain yn dawel, copïo neu ddosbarthu anghyfreithlon, setiau bocs heb eu mesur/cynnwys talu-i-wylio, a gweithgarwch rhyngrwyd heb fod yn fideo drwy gyfrifiadur personol neu ddyfais arall sydd wedi'i chysylltu â'r teledu. Nid yw SVoD /AVoD yn cynnwys gwylio NOW, sy'n gynwysedig o fewn BVoD ynghyd â Sky Go/Sky TV On Demand (mae'r ddau wasanaeth hyn yn ffrydio'r un cynnwys, felly ni ellir gwahanu gwylio wedi'i fesur).

Ffynhonnell: Ofcom, Cyfryngau'r Genedl 2026


Munudau dyddiol ar gyfartaledd a welwyd o deledu darlledu fesul person, fesul cenedl: 2022-2025



Ffynhonnell: Barb, fel y'i gwyliwyd. Unigolion dros 4 oed, ardaloedd yr BBC, chwarae byw ac wedi'i recordio a BVoD.

Ffynhonnell: Ofcom, Cyfryngau'r Genedl 2026

Cyfartaledd y munudau gwylio teledu a ddarlledir y dydd yng Nghymru, yn ôl grŵp oedran: 2024-2025



Ffynhonnell: Barb, fel y'i gwelwyd.


Ffynhonnell: Ofcom, **Cyfryngau'r Genedl 2026**

Yn chwarter cyntaf 2026, fe wnaeth cyfran yr aelwydydd yng Nghymru sy'n tanysgrifio i o leiaf un gwasanaeth tanysgrifio fideo ar alw (neu *SVoD*)[1] ostwng ychydig, gyda 69% o aelwydydd yn tanysgrifio, o'i gymharu â 70% yn chwarter cyntaf 2025.

Y gwasanaeth mwyaf poblogaidd yng Nghymru (gan gynnwys darlledu a fideo ar alw) yw'r BBC, gyda YouTube yn ail, ac ITV yn dilyn.

[1] Tanysgrifio Fideo ar alw (e.e. Netflix, Amazon Prime Video neu Disney+)

Cyfran o gyfanswm gwylio fideo ar gyfer gwasanaethau unigol yng Nghymru, pob unigolyn 4+ (2025)




Ffynhonnell: Barb fel y'i gwyliwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n defnyddio rhwydweithiau Wi-Fi y cartref, unigolion dros 4 oed. Mae 'llinol' yn cynnwys deunydd wedi'i ddarlledu sy'n cael ei wylio'n fyw neu drwy chwarae recordiadau. Mae gwasanaethau darlledwyr yn cynnwys pob sianel portffolio.

Ffynhonnell: Ofcom, **Cyfryngau'r Genedl 2026**

Canfu arolwg Ofcom o arferion cael gafael ar newyddion mai BBC One yw'r cyfrwng a ddefnyddir mwyaf aml i gael mynediad at newyddion ymhlith pobl yng Nghymru, gyda 57% o'r ymatebwyr yng Nghymru yn dweud eu bod wedi defnyddio'r sianel yn ystod y mis diwethaf ar gyfer newyddion. Dilynwyd hyn gan Google Search (55%), Facebook (52%) ac ITV1 (40%). Gwefan neu ap Newyddion y BBC oedd y wefan neu'r ap darlledu a ddefnyddiwyd fwyaf ar gyfer newyddion gan bobl yng Nghymru, sef 27% o'r ymatebwyr.

Y prif ffyrdd o gael gafael ar newyddion yng Nghymru yn ystod y mis diwethaf: 2026




Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2026. Cwestiwn: D1-D22. Pa rai o'r [MATH O GYFRYNGAU] canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi gweld neu glywed newyddion arnynt yn ystod y mis diwethaf? *Mae NET BBC yn cynnwys teledu'r BBC/ BBC iPlayer, apiau/gwefannau'r BBC, BBC Radio, BBC Sounds. Sylfaen: Pob oedolyn yng Nghymru (600).

Ffynhonnell: Ofcom, **Cyfryngau'r Genedl 2026**

Fe wnaeth adolygiad Ofcom yn 2025 o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, **Argyfwng Darlledu**, rybuddio "efallai na fydd pobl ifanc yn ffurfio cysylltiad â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus", gan eu bod yn treulio llai o amser yn gwylio gwasanaethau darlledwyr nag unrhyw grŵp oedran arall. Mae ei ddata yn dangos mai YouTube a Netflix yw'r cyrchfannau cyntaf mwyaf poblogaidd i blant (4-15) a phobl iau (16-34), tra bod pobl 35 oed a hŷn yn fwy tebygol o ddechrau eu teithiau gwylio gyda BBC One.

Cyrchfannau cyntaf ar gyfer gwylio yn ôl sianel/gwasanaeth, Tachwedd 2024




Ffynhonnell: Ofcom, Argyfwng Darlledu 2025 Sylwer. Y gyrchfan gyntaf yw'r sianel gyntaf y mae gwyliwr yn ei gwylio am funud neu fwy.

Gwrando

Ar draws y DU, mae gwrando ar radio byw ar set radio yn lleihau yn sgil y cynnydd mewn gwrando ar bodlediadau, radio byw ar-lein a cherddoriaeth wedi'i ffrydio.

Cyfran o'r amser a dreulir yn gwrando ar sain bob wythnos (ledled y DU)



Ffynhonnell: Ofcom, Cyfryngau'r Genedl 2026

3. Darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (hynny yw, y BBC, ITV, S4C, Channel 4 a Channel 5) wedi'u rheoleiddio gan Ofcom i ddarparu rhaglenni penodol er budd y cyhoedd. Mae ganddynt gyfrifoldebau amrywiol mewn perthynas â'r buddion cyhoeddus y maent yn eu cael (megis cyllid yn achos y BBC ac S4C, ac amlygrwydd gwarchodedig ar amserlenni rhaglenni electronig ar gyfer pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus) fel rhan o'u statws fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.

BBC

Cyllid

Ariennir y BBC (ynghyd ag S4C) drwy ffi'r drwydded, sy'n daladwy – gydag eithriadau – gan unrhyw un sydd am wylio rhaglenni ar deledu darlledu, ar-lein neu ar wasanaeth teledu ar-lein. Mae trwydded deledu safonol **yn costio £180 am flwyddyn.**

Mae'r BBC yn **gyson yn gwario mwy yng Nghymru nag sy'n cael ei godi gan ffi'r drwydded**. Yn 2025-26, mae'r BBC yn amcangyfrif bod ffi'r drwydded wedi codi £196 miliwn yng Nghymru. Yn yr un flwyddyn gwariodd y BBC £216m yng Nghymru (Sylwer: Mae S4C hefyd yn cael ei ariannu gan y ffi drwydded).

Yn 2023 **dywedodd y BBC wrth Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Chweched Senedd** (y Pwyllgor Diwylliant a Chyfathrebu) bod angen cynnydd yn y ffi drwydded er mwyn i'r BBC wasanaethu'r Deyrnas Unedig gyfan:

> *The BBC has also lost 30 per cent of its income over that decade, and I think support for the licence fee, support for restoring inflation within our licence fee, is a necessity if we are to serve and to proceed with universality, so that we reach every corner of the United Kingdom, whether it's Blaenau Gwent or the Cynon valley, or anywhere else. We need the money. And at some point, I think the UK Government also has to take a decision that it wants a broadcaster of scale operating throughout the world, and then it has to figure out how to pay for it.*

Ym **mis Chwefror 2026 cyhoeddodd y BBC** y byddai'n gwneud toriadau sy'n cyfateb i tua 10% o'i gostau yn wyneb 'pwysau ariannol sylweddol' dros y tair blynedd nesaf. **Ym mis Ebrill 2026 eglurodd y BBC fod angen iddo wneud** arbedion o £500m dros y ddwy flynedd nesaf.

Ym mis Mehefin 2026 cyhoeddodd y BBC **fanylion yr arbedion cyntaf o £160 miliwn** gan gynnwys £9 miliwn yng Nghymru, a thua 50 o rolau.

Mae cyfanswm yr arbedion arfaethedig yn y gwledydd fel a ganlyn:

> *A total of £33m of savings by the end of 27/28, with the expected closure of around 250 posts in this first phase expected to be broken down as follows:*
>
> *– Savings of £9m in Wales and a reduction in headcount of around 50 roles*
>
> *– In Northern Ireland, £4m of savings and up to 50 roles*
>
> *– In Scotland, over £10m of savings and up to 60 roles*
>
> *– In BBC Local, £9m savings and around 90 roles*

Ym mis Medi 2026 cyhoeddodd fanylion am sut olwg fyddai ar yr arbedion hyn yng Nghymru.

Rheoleiddio

Roedd **Siarter Frenhinol 2017-27**, sef sail gyfansoddiadol y BBC, yn cynnwys rôl newydd i Ofcom fel rheoleiddiwr allanol cyntaf y BBC. Mae'r rôl hon yn cynnwys sicrhau bod cynulleidfaoedd yng ngwledydd unigol y DU yn cael eu 'gwasanaethu'n dda'. Mae dyletswyddau rheoleiddio Ofcom yn cynnwys gosod amodau a gynlluniwyd i sicrhau bod allbwn a gwasanaethau nodedig yn cael eu darparu gan y BBC. Yn ogystal â phlismona cynnwys, mae Ofcom yn gyfrifol am sicrhau bod 'cyfran addas' o raglenni rhwydwaith yn cael eu cynhyrchu y tu allan i Lundain, gan gynnwys ym mhob un o wledydd y DU.

Yn ôl rheolau Ofcom, rhaid gwario o leiaf 5% o wariant y BBC ar raglenni rhwydwaith y DU yng Nghymru, sy'n rhaid cynrychioli o leiaf 5% o oriau rhwydwaith y DU. Mae ffigurau cyfatebol ar sail cyfrannau poblogaeth yn bodoli ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon, a Lloegr y tu allan i'r M25.

Mae Ofcom wedi datblygu un **drwydded weithredu** i'r BBC sy'n cynnwys 'amodau rheoleiddio clir a mesuradwy sy'n briodol heriol mewn perthynas â

gwasanaethau'r BBC'. Mae'n nodi'r hyn y dylai pob sianel a gorsaf radio ei wneud, gan gynnwys gofynion amser ar gyfer categorïau amrywiol, megis newyddion a materion cyfoes a rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol a rhanbarthol.

Adnewyddu'r Siarter

Y Siarter Frenhinol yw sail gyfansoddiadol y BBC fel darparwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mae Llywodraeth y DU yn y broses o adnewyddu'r Siarter bresennol, sy'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2027.

Mae'r Siarter yn diffinio Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC ac yn nodi sut mae'n cael ei lywodraethu, ei reoleiddio a'i gyllido. Mae Cytundeb Fframwaith y BBC yn eistedd ochr yn ochr â'r Siarter, ac yn darparu manylion ychwanegol.

Dibenion cyhoeddus presennol y BBC yw:

- Diben cyhoeddus 1 – Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymwneud â'r byd o'u cwmpas.
- Diben cyhoeddus 2 – Cefnogi dysgu i bobl o bob oed.
- Diben cyhoeddus 3 – Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a neilltuol sydd o'r ansawdd gorau.
- Diben cyhoeddus 4 – Adlewyrchu, portreadu a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, hybu'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig.
- Diben Cyhoeddus 5 – Dangos y Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.

Fe wnaeth Pwyllgor Diwylliant a Chyfathrebu'r Senedd flaenorol **ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y Papur Gwyrdd ar y Siarter** ym mis Mawrth 2026. Argymhellodd fel a ganlyn:

- **Argymhelliad 1:** Yn ystod cyfnod y Siarter nesaf, dylai'r BBC ac S4C gael o leiaf y symiau o gyllid y maent yn eu cael ar hyn o bryd, wedi'u cynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.
- **Argymhelliad 2:** Mae angen gwarantu cyllid digonol ar gyfer S4C. Dylid sicrhau cynnydd ar y lefelau presennol, yn sgil toriadau hirdymor

sylweddol i gyllid y darlledydd a chynnydd yn y costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethu cynulleidfaoedd ar draws sawl platfform digidol.

- **Argymhelliad 3:** Dylai'r BBC ac S4C gael eu hariannu drwy fecanwaith cyffredinol (gydag esemptiadau i'r rhai nad oes modd iddynt dalu).

Cyhoeddodd Pwyllgor Dethol Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin **adroddiad i Adolygiad Siarter Frenhinol y BBC** ym mis Hydref 2026. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod **yn disgwyl cyhoeddi Papur Gwyn yn ddiweddarach yn 2026.**

Ymgynghorodd Llywodraeth y DU hefyd ar **Bapur Gwyrdd y Cyfryngau** gan ystyried diwygio'r cyfryngau yn fwy eang.

Gweithgarwch yng Nghymru

Mae'r BBC yn cynhyrchu cynnwys lleol ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru, a chynnwys rhwydwaith sy'n cael ei ddarlledu ledled y DU, ac y mae rhywfaint ohono wedi'i wneud yng Nghymru.

Cynnwys lleol

Yn 2025-26, roedd gwariant y BBC ar gynnwys teledu Saesneg ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru yn £33 miliwn (gostyngiad bach o'i gymharu â gwariant yn 2024-25, pan oedd yn £34 miliwn).

Yn yr Alban – sydd â sianel deledu ar wahân, BBC Scotland – roedd gwariant ar deledu Saesneg ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban yn £65 miliwn yn 2025-26, neu tua dwbl y gwariant cyfatebol yng Nghymru.

Fe wnaeth Pwyllgor Diwylliant a Chyfathrebu'r Senedd flaenorol **godi'r anghydraddoldeb hwn gyda'r BBC** sawl gwaith, gan argymell fel a ganlyn ym mis Mawrth 2026:

> *Dylai gwariant y BBC ar gynnwys teledu Saesneg yng Nghymru dyfu o'r naill flwyddyn i'r llall nes ei fod yn cyd-fynd â gwariant y BBC ar gynnwys Saesneg yn yr Alban. Dylai'r BBC amlinellu i'r Pwyllgor hwn sut y bydd yn cyflawni hyn.*

Cynnwys rhwydwaith

Yn ôl telerau ei drwydded weithredu gydag Ofcom, rhaid gwario o leiaf 5 y cant o wariant y BBC ar raglenni rhwydwaith y Deyrnas Unedig yng Nghymru (**yn**

2025 roedd y ffigur gwirioneddol yn 9.1 y cant) a rhaid iddo gyfateb i o leiaf 5 y cant o oriau rhwydwaith y Deyrnas Unedig (**yn 2025 roedd y ffigur yn 8.6%**). Mae hyn yn dilyn strategaeth a ddilynwyd gan Gyfarwyddwyr Cyffredinol olynol y BBC i symud cynyrchiadau allan o Lundain.

Sianel 3

Y cefndir

Ledled y DU, ceir 15 o drwyddedau Sianel 3 rhanbarthol, sy'n disgrifio'r telerau y mae'n rhaid i berchennog y drwydded weithredu yn unol â nhw, ac sy'n cael ei orfodi gan Ofcom. Heblaw am y ddwy drwydded yn yr Alban – sy'n eiddo i STV – mae pob un o'r trwyddedau hyn yn eiddo i ITV.

Mae trwydded Sianel 3 yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i ITV ddarparu pedair awr o newyddion a 90 munud o raglenni nad ydynt yn rhai newyddion i Gymru bob wythnos. Adnewyddwyd y drwydded hon yn 2024 am ddeng mlynedd, gyda'r ymrwymiadau i Gymru yn cael eu cynnal ar yr un lefel.

Cynnwys i Gymru


Mae ITV wedi dweud yn flaenorol **wrth Bwyllgor Diwylliant a Chyfathrebu'r Chweched Senedd**, oherwydd newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn defnyddio eu cyfryngau, mae trwyddedau Sianel 3 yn gostwng o ran gwerth:

> *We've seen over the last five, 10 years or so, since the last licences were granted, a drift away from consumption of broadcast linear television, and that's had two effects. It's reduced the value of DTT* (teledu daearol digidol) *capacity. So, we know that, to buy capacity for a channel on terrestrial television, on Freeview, the price to do that has gone down a lot, and, therefore, the benefit of having that spectrum for free has gone down too. And the value of prominence, arguably, has gone down, because, essentially, fewer people are using a linear grid electronic programme guide that you would expect to find on a traditional television set—so, literally, channel 1, channel 2, channel 3. Fewer people are accessing their content in that way. They're using apps, they're using all sorts of other methods of finding content, and the result of that is that the prominence is therefore less valuable. So, in aggregate, because of changing consumption habits, the licences are less valuable. But the truth is that's the history of ITV since*

> *competition was introduced, if you like, because the licence, originally, literally gave you a monopoly, because there was no other commercial competition back in the 1950s and 1960s, and so the trajectory has been about introducing competition to ITV, which, inevitably, has eroded the value of the licence over time.*

Roedd gwariant blynyddol ITV ar gynnwys gwreiddiol o'r DU, a ddarlledir am y tro cyntaf ac nad yw ar y rhwydwaith ar gyfer Cymru, yn £6.1 miliwn yn 2019 ac yn £6.4 miliwn yn 2025 (gostyngiad mewn termau real o tua 18%).

Gwariant y BBC ac ITV Cymru Wales ar gynnwys gwreiddiol o'r DU a ddarlledir am y tro cyntaf di-rwydwaith ar gyfer Cymru: 2019-2025 (£m)



Ffynhonnell: Ofcom, Cyfryngau'r Genedl 2026

Cynnwys rhwydwaith wedi'i wneud yng Nghymru

Yn 2024 argymhellodd Pwyllgor Diwylliant a Chyfathrebu'r Chweched Seneddy canlynol:


- Dylai Ofcom gynnwys gofyniad i drwydded Sianel 3 yng Nghymru gynhyrchu cyfran uwch o gynnwys rhwydwaith yng Nghymru. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn amlinellu sut y bydd yn gwneud hyn.

Nid yw'r drwydded sianel 3 bresennol yng Nghymru, a adnewyddwyd yn 2024 am ddeng mlynedd, yn cynnwys y gofyniad hwn. Fe wnaeth **ymateb Ofcom** i adroddiad y Pwyllgor ddweud y canlynol:

> *Mae trwydded Channel 3 ar gyfer Cymru yn gosod dyletswyddau ar ddeiliad y drwydded i gynhyrchu a darlledu symiau penodol o gynnwys rhanbarthol penodol yng Nghymru ac ar ei chyfer* (gweler yr adran uchod ar gefndir Sianel 3). *Mae'r drwydded hefyd yn cynnwys gofyniad bod o leiaf 35 y cant o gynnwys rhwydwaith gwreiddiol yn cael ei wneud y tu allan i ardal yr M25. Fodd bynnag, nid oes gennym bŵer i bennu, fel rhan o'r amod hwnnw, leoliadau daearyddol penodol y tu allan i ardal yr M25 lle dylai cynhyrchu o'r fath ddigwydd.*

Yn 2025, roedd gwariant rhwydwaith ITV Cymru yng Nghymru yn 1.3% o'i wariant yn y DU.

Cyfran y cynyrchiadau rhwydwaith cymwys wedi'i neilltuo i Gymru, yn ôl Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus: 2020-2025 (%)



Ffynhonnell: Ofcom, **Cyfryngau'r Genedl 2026**

S4C

Y cefndir

Lansiwyd S4C ym 1982, yn dilyn deddfwriaeth a basiwyd gan Senedd y DU. Yn wreiddiol, roedd yn darlledu cynnwys Saesneg o Channel 4, a oedd newydd ei lansio, ond yn dilyn y newid i ddigidol yn 2010, mae'n darlledu yn y Gymraeg yn unig.

Mae'r cyfrifoldeb dros S4C, ynghyd â gweddill darlledu, yn fater a gedwir yn ôl gan San Steffan. Mae S4C, yn gweithredu yn unol â chylch gorchwyl sy'n cael ei bennu gan Lywodraeth y DU, sydd â dyletswydd statudol i sicrhau bod S4C yn cael cyllid digonol.

Cyllid

Daw tua 98% o gyfanswm incwm S4C o'r ffi drwydded, gyda'r 2% sy'n weddill yn dod o weithgareddau masnachol. Cyn mis Ebrill 2022, darparwyd cyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU.

Ym mis Ionawr 2022, penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd y byddai S4C yn cael tua £88.85 miliwn o gyllid Ffi'r Drwydded o 1 Ebrill 2022, gyda'r swm hwn i gynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) o 1 Ebrill 2024 tan ddiwedd cyfnod y setliad (31 Mawrth 2028).

Yn **2025-26 cafodd S4C £97.6 miliwn drwy ffi'r drwydded**.

Yn 2010, cafodd S4C £102 miliwn gan Lywodraeth y DU. Mae hyn yn golygu bod y sianel wedi wynebu tua 40% o doriad mewn termau real ers hynny.

Roedd y canlynol ymhlith yr argymhellion perthnasol yn **adroddiad 'y sefyllfa sydd ohoni' Pwyllgor Diwylliant a Chyfathrebu'r Chweched Senedd gynnwys**:

- Dylai Llywodraeth y DU gynyddu cyllid S4C yn sylweddol. Dylai hyn gynnwys cyllid dangosol am nifer o flynyddoedd er mwyn galluogi S4C i gynllunio'n ddigonol ar gyfer y dyfodol.
- Dylai Llywodraeth y DU ystyried ariannu S4C yn ôl fformiwla, er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i S4C ynghylch cyllid yn y dyfodol. Gallai'r fformiwla hon gynnwys cysylltu cyllid S4C â mesurau chwyddiant fel Mynegai Prisiau Defnyddwyr neu Fynegai Prisiau Manwerthu, neu gyfeirio at refeniw cyffredinol ffi'r drwydded. Dylai gynnwys


mecanwaith glicied er mwyn sicrhau nad yw cyllid ar gyfer S4C yn disgyn mewn termau real.

Yn ei **hymateb, dywedodd Llywodraeth y DU** ei bod hi wedi lansio adolygiad o fodel cyllido ffi'r drwydded, a fydd yn ystyried yn benodol drefniadau cyllido darlledu yn y Gymraeg. Nododd fod cyllid S4C bellach yn cael ei gyllido drwy fformiwla sy'n gysylltiedig â chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr am weddill cyfnod y Siarter hwn, tan 2028.

Perfformiad

Mae cyrhaeddiad wythnosol S4C yn dangos dirywiad parhaus:


Cyrhaeddiad wythnosol



Ffynhonnell: BARB/ **Adroddiad Blynyddol S4C 2025-26**

Ar yr un pryd, mae gwylio cynnwys S4C ar lwyfannau ffrydio yn parhau i gynyddu:

Oriau o gynnwys S4C wedi'i wylio ar S4C Clic, BBC iPlayer a YouTube



Ffynhonnell: BARB/ Adroddiad Blynyddol S4C 2025-26

Radio

Mae Ofcom yn rheoleiddio gwasanaethau radio darlledu (h.y. nid gwasanaethau ar-lein yn unig).

Radio masnachol


Hyd at ganol y 2000au, roedd gan bob gwasanaeth masnachol lleol ofynion penodol i'w bodloni, a nodwyd mewn 'fformat', a oedd yn rhagnodi pryd y byddai'n rhaid i'w gwasanaethau ddarparu newyddion lleol, cynnwys lleol arall megis y tywydd a newyddion teithio, a phryd y byddai'n rhaid i'r cyflwynydd fod wedi'i leoli yn yr ardal leol. Yn dilyn deddfwriaeth, mae Ofcom wedi dileu'r gofynion hyn yn raddol, wrth i ddarlledwyr radio masnachol wynebu cystadleuaeth gynyddol gan wasanaethau radio a ffrydio ar-lein heb eu rheoleiddio.

Fe wnaeth Deddf Cyfryngau 2024 leihau gofynion rheoleiddio ar orsafoedd radio masnachol, drwy ddileu gofynion ynghylch 'cymeriad' pob gwasanaeth (gan gynnwys y mathau o gerddoriaeth y maen nhw'n ei chwarae) a gofynion bod rhaid darlledu deunydd lleol, gan gynnwys rhaglenni a wneir yn lleol.

Fodd bynnag, mae hefyd wedi gosod gofynion newydd yn ymwneud â darparu newyddion a gwybodaeth leol. Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddodd Global y byddai'n rhoi'r gorau i ddarlledu yn y Gymraeg ac yn symud i un ganolfan yng Nghaerdydd, gan gau ei gyfleusterau Capital Cymru yng ngogledd Cymru. Rhoddodd Nation Broadcasting ei drwydded FM ar gyfer Ceredigion ym mis Gorffennaf 2025. Mae hyn yn golygu y bydd angen i wrandawyr Nation Radio yn yr ardal honno, bellach, gael mynediad at y gwasanaeth drwy DAB (Darlledu Sain Digidol) neu ar-lein.

Mae refeniw radio masnachol yn gyson is yng Nghymru nag mewn mannau eraill yn y DU:

Refeniw radio masnachol y pen, fesul cenedl: 2024 (£)



Ffynhonnell: Ofcom, ffurflenni darlledwyr. Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud yn unig â chyfanswm trosiant perthnasol a adroddwyd yn erbyn trwyddedau AL (analog lleol masnachol) ac mewn perthynas â hysbysebu maen nhw'n cynnwys refeniw hysbysebu lleol a chenedlaethol, hynny yw, dim ond y refeniw sy'n gysylltiedig â hysbysebion sydd wedi'u hanelu at wlad benodol. Gan nad oedd amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2024 ar gael adeg cyhoeddi 2023, mae data poblogaeth canol blwyddyn 2023 wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer 2022 a 2024.

Ffynhonnell: **Ofcom, Cyfryngau'r Genedl 2025** (Sylwer: Nid oes ffigurau cyfatebol yn adroddiad Ofcom, Cyfryngau'r Genedl 2026)

Radio cymunedol

Mae gan wasanaethau radio cymunedol ofynion penodol ynghylch cynnwys, megis newyddion lleol, a chynnwys a gynhyrchir yn lleol. Mae ganddyn nhw hefyd ofynion penodol ar gyfer budd cymdeithasol, megis cymryd rhan yn y gwasanaeth a darparu hyfforddiant. Rhaid eu gweithredu ar sail nid-er-elw.

Mae 11 o wasanaethau radio cymunedol yn darlledu eu gwasanaethau yng Nghymru:

- BGfm (Brynmawr)
- Bro Radio (Bro Morgannwg)
- GTFM (Pontypridd, Aberdâr a'r ardaloedd cyfagos)
- Môn FM (Ynys Môn)
- Newport City Radio (Casnewydd/Cas-gwent)
- Premier Radio (Wrecsam)
- Radio Cardiff (Caerdydd)
- Rhondda Radio (Cymoedd Rhondda)
- Rookwood Sound Radio (Caerdydd)
- SA Radio Live/Welsh Coast Radio (Tircoed), a hefyd
- Sound Radio (Tywyn a'r Rhyl)

Mae gan wyth o'r gorsafoedd hyn ymrwymiadau o ran y Gymraeg yn eu trwyddedau.

DAB (Darlledu Sain Digidol) ar raddfa fach

Mae DAB ar raddfa fach yn cynnig cyfle i orsafoedd llai ac arbenigol ddarlledu cynnwys, gyda chynnwys Cymraeg yn eu plith. Mae'n darparu llwybr cost isel i wasanaethau cerddoriaeth masnachol, cymunedol ac arbenigol lleol ddarlledu ar radio digidol daearol i ardal ddaearyddol gymharol fach. Mae chwe amlblecs DAB ar raddfa fach ar yr awyr yng Nghymru, nawr.

4. Ofcom

Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU Mae'n rheoleiddio'r BBC ac S4C, yn sicrhau bod ITV Cymru Wales yn cydymffurfio â thelerau ei thrwydded, ac yn trwyddedu gwasanaethau radio.

Ym mis Mawrth 2026, fe wnaeth Pwyllgor Diwylliant a Chyfathrebu'r Chweched Senedd **argymell y canlynol**:

- Argymhelliad 1: Dylai Ofcom ddefnyddio ei ddulliau rheoleiddio a'i ddylanwad sylweddol i wella'r ddarpariaeth o gynnwys cyfryngau i Gymru.
- Argymhelliad 2: Dylai Ofcom ddarparu'r lefelau staffio presennol ar gyfer ei swyddfeydd ledled y DU, ac egluro sut mae lefelau o staff uwch yng Nghymru yn cymharu â swyddfeydd eraill ledled y DU. Dylai ddarparu'r cyflog canolrifol ar gyfer ei swyddfa yng Nghaerdydd, a sut mae hyn yn cymharu â chyflog canolrifol Ofcom y DU.
- Argymhelliad 3: Dylai Ofcom gynyddu nifer ei weithwyr yng Nghymru.
- Argymhelliad 4: Dylai Ofcom weithio gydag ITV i gynyddu ei wariant ar gyfer y DU yng Nghymru.
- Argymhelliad 5: Dylai Ofcom ddiwygio'r cod ymarfer drafft ar Amlygrwydd a hygyrchedd ar lwyfannau teledu cysylltiedig fel bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU yn cael yr un amlygrwydd ag y maent yn ei gael ar hyn o bryd o dan y cod Canllaw Rhaglenni Electronig.
- Argymhelliad 6: Dylai Ofcom ddiwygio'r cod ymarfer drafft ar Amlygrwydd a hygyrchedd ar lwyfannau teledu cysylltiedig fel bod S4C yn cael mwy o amlygrwydd yng Nghymru nag y mae ar draws y DU gyfan. Dylai S4C hefyd gael amlygrwydd ledled y DU, i gydnabod ei chynulleidfaoedd y tu allan i Gymru.
- Argymhelliad 7: Dylai Ofcom ei gwneud yn glir ei fod yn cefnogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu trafodaethau gyda phlatfformau teledu. I'r perwyl hwn, dylai Ofcom roi canllawiau cliriach, fel bod llai o le i anghytuno rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a phlatfformau.

- Argymhelliad 8: Dylai Ofcom adolygu darllediadau newyddion rhwydwaith y DU o faterion polisi datganoledig yn barhaus. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn (a phwyllgor yn y Senedd yn y dyfodol) yn nodi sut y bydd yn gwneud hyn.

Gellir **darllen ymateb Ofcom yma**.

Ofcom yng Nghymru

Mae **Deddf Cyfathrebu 2003** yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom sefydlu a chynnal swyddfeydd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yng Nghymru, mae gan Ofcom swyddfa yng Nghaerdydd. Fe'i harweinir gan Gyfarwyddwr y Gwledydd sy'n cael ei gefnogi gan dîm Materion Rheoleiddio i gynrychioli buddiannau Cymru ar draws cylch gorchwyl Ofcom, ac Uned y Gymraeg i sicrhau bod Ofcom yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o dan Fesur y Gymraeg 2011.

Ym mis Ionawr 2026 roedd Ofcom yn cyflogi 1,714 o bobl ledled y DU, gyda 28 o staff wedi'u lleoli yng Nghymru, gan gynnwys 26 yn swyddfa Caerdydd a 2 yn gweithio gartref, sy'n cynrychioli 1.6% o gyfanswm y staff.

Mae **Pwyllgor Cynghori Ofcom** yn cynghori Ofcom ar faterion cyfathrebu mewn perthynas â Chymru.

5. Llywodraeth Cymru

Er bod darlledu'n fater a gedwir yn ôl yn San Steffan, mae gan Lywodraeth Cymru bwerau eang (a roddir i Weinidogion Cymru o dan **adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**) i wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn briodol i hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru **yn ariannu cynyrchiadau ffilm a theledu** drwy ei hadran diwydiannau creadigol, Cymru Greadigol.[2] Mae gan Lywodraeth Cymru Femoranda Cyd-ddealltwriaeth gydag **Ofcom**, **y BBC** ac **S4C** (ynghylch strategaeth y Gymraeg, Llywodraeth Cymru).

Mae gan Cymru Greadigol Femoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda'r **BBC** ac **S4C**, gan ganolbwyntio ar waith i ddatblygu'r diwydiannau creadigol.

Gweithgor Newyddiaduraeth Budd y Cyhoedd Cymru

Yn 2023, cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru adroddiad (**O Gymru ac i Gymru: tuag at ddyfodol cynaliadwy ar gyfer newyddiaduraeth er budd y cyhoedd**) gan ei gweithgor newyddiaduraeth budd y cyhoedd. Roedd gan y grŵp hwn o arbenigwyr a chynrychiolwyr y diwydiant gylch gorchwyl, ymhlith pethau eraill, i "hoelio ei sylw a'i gyngor ar gamau gweithredu i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru". Dywedodd ei adroddiad y canlynol:

> *Dylai Llywodraeth Cymru ddatgan newyddiaduraeth er budd y cyhoedd fel y'i diffinnir yn yr adroddiad hwn fel gwasanaeth cyhoeddus a sefydlu Sefydliad Cyfryngau Cymru. Dylai cylch gwaith y Sefydliad fod yn eang i ymgysylltu â dinasyddion, gwasanaethu cynulleidfaoedd a chefnogi a gwella newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yng Nghymru, a bod yn gyfrwng ar gyfer cyfres o fecanweithiau cyllido strategol a phenodol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y sector yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn amlieithog.*

Argymhellodd y dylai Sefydliad Cyfryngau Cymru gael y canlynol:

[2] Mae manylion buddsoddiadau a wnaed o dan Cronfa Sgrin Cymru, Llywodraeth Cymru ar gael mewn tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd i Ddiwylliant a Chyfathrebu'r Chweched Senedd ar ei gyfer. **Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27**.

> [c]*yllideb o ddim llai na £1m y flwyddyn i roi cefnogaeth hyd braich i newyddiaduraeth er budd y cyhoedd*

Ni wnaeth Llywodraeth flaenorol Cymru ymateb yn sylweddol i'r adroddiad hwn, er **dywedodd y byddai'n** "[b]wrw ymlaen â'r argymhellion hyn lle bo hynny'n bosibl, yng nghyd-destun heriau ariannol parhaus".

6. Dadansoddiad newyddion rhwydwaith

Cwyn barhaus mewn trafodaethau ynghylch darlledu yng Nghymru yw gwendid y sylw i newyddion a materion cyfoes. Yn 2021, fe **ddywedodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Pumed Senedd** (yn ei adroddiad ar ddatganoli darlledu) y canlynol:

> *Yn sgil ein hymchwiliad, gwelwyd anfodlonrwydd eang â'r cynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd Cymru ar y cyfryngau. Cynnwys newyddion a materion cyfoes oedd y diffyg mwyaf a nodwyd.*

Ers hynny, mae sawl astudiaeth wedi dadansoddi darpariaeth newyddion rhwydwaith am Gymru.

Yn 2022, cyhoeddodd Ofcom **adroddiad gan yr Athro Stephen Cushion o Brifysgol Caerdydd a Dr Richard Thomas o Brifysgol Abertawe** yn ystyried pa mor dda y mae darparwyr newyddion rhwydwaith y DU yn adrodd ar faterion polisi datganoledig ar y teledu ac ar-lein. Dywedodd y canlynol:

> *[mae] darparwyr newyddion rhwydwaith yn y DU wedi cynyddu'r sylw maent yn ei roi i faterion datganoledig o'i gymharu â chanfyddiadau blaenorol yn 2015 a 2016. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i Covid-19, a ddaeth â datganoli i'r amlwg yng ngwleidyddiaeth y DU.*
>
> *Dangosodd cyfweliadau ag uwch olygyddion newyddion fod ystafelloedd newyddion wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o roi gwybod am wahaniaethau polisi datganoledig mewn newyddion rhwydwaith.*
>
> *yn gyffredinol, er bod yr astudiaeth wedi canfod mwy o sylw i'r sefydliadau datganoledig, roedd hefyd wedi nodi cyfleoedd a gollwyd i egluro gwahanol benderfyniadau'r llywodraethau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.*

Yn 2026, rhan-ariannodd Llywodraeth Cymru **adroddiad gan yr Athro Stephen Cushion o Brifysgol Caerdydd** yn edrych ar sut mae newyddion rhwydwaith, gan gynnwys yr hyn a gyhoeddir ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ymdrin â gwleidyddiaeth ddatganoledig. Roedd y canfyddiadau yn yr adroddiad fel a ganlyn (Saesneg yn unig):

> *When posts had clear devolved relevance, over seven in ten posts (73%) did not state whether the issue applied to England only, such as in stories about health, education and transport.*
>
> *Over half the items on TV news (57.4%) did not provide any clarity about the story being relevant to a specific nation, such as England, or England and Wales. For example, most broadcasters failed to mention that the "National Grooming Gangs inquiry" only related to England and Wales, as Scotland and Northern Ireland are responsible for policing and criminal justice.*
>
> *Just over a third of all online articles (35.3%) did not provide any clarity about the story being relevant to either England, Scotland, Wales or Northern Ireland. For example, some online stories covered the ongoing junior doctors' strikes without stating they were happening in England only.*

Roedd adroddiad 2026 yn cynnwys yr argymhellion a ganlyn:

> *Since coverage of the nations and devolved politics in UK-wide news media has been a constant concern over the past two decades, the Welsh Government should fund an independent bi-annual review of network news output and people's understanding of Welsh politics. This will ensure the issue remains on the radar of broadcasters, regulators and the wider public, with debates informed by robust rather than anecdotal evidence.*
>
> *While Ofcom may not have the resources to regularly monitor network news coverage or undertake audience studies about public knowledge of devolution, the regulator could remind broadcasters of the importance of accurately reporting the UK's constitutional arrangements in official guidance issued ahead of elections or in other periodic reviews and assessments of news output.*

7. Digwyddiadau chwaraeon ar restr

Mae **Deddf Ddarlledu 1996**, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau 2024, yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon lunio rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon o 'ddiddordeb cenedlaethol'. Golyga hyn bod rhaid cynnig hawliau darlledu'r digwyddiadau hyn i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar delerau teg a rhesymol.

Nid yw creu rhestr yn golygu bod yn rhaid dangos digwyddiad ar deledu am ddim. Mae'n golygu'n syml, os yw deiliaid hawliau yn cynnig yr hawliau i'w gwerthu, fod yn rhaid iddynt roi'r cyfle cyntaf i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gynnig amdanynt ar delerau teg a rhesymol.

Mae dau grŵp o ddigwyddiadau wedi'u rhestru:

- Mae digwyddiadau Grŵp A yn diogelu ddarllediadau byw llawn, ac maent yn cynnwys Pencampwriaethau pêl-droed Ewrop, y Gemau Olympaidd a Wimbledon.
- Dim ond darllediadau eilaidd (uchafbwyntiau wedi'u golygu neu sylwebaeth wedi'i gohirio) sydd gan ddigwyddiadau Grŵp B, ac maent yn cynnwys gemau cartref rygbi'r Chwe Gwlad.

Fe wnaeth pob un o'r **Chweched Senedd**, **Pwyllgor Diwylliant a Chyfathrebu'r Chweched Senedd**, **Llywodraeth flaenorol Cymru** a **Phwyllgor blaenorol Materion Cymreig** Tŷ'r Cyffredin, alw am ddiogelwch ychwanegol ar gyfer gemau rygbi'r Chwe Gwlad, fel y gall gwylwyr yng Nghymru eu gwylio ar deledu am ddim. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am reoleiddio darlledu, ac fe gafodd pob un o'r galwadau hyn **eu gwrthod gan Lywodraeth flaenorol y DU**.

Mae **storm berffaith o ddeinameg y farchnad** wedi gwthio nifer gynyddol o ddigwyddiadau chwaraeon, a arferai fod ar gael i'r rheini sy'n talu'r ffi drwydded deledu, y tu ôl i wal dalu.

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu cyfyngiadau cyllidebol, boed o doriadau hirdymor i ffi'r drwydded neu ddirywiad yn y farchnad hysbysebu, sy'n cael eu gwaethygu gan chwyddiant costau cynhyrchu. Mae gwerth hawliau wedi cynyddu, gyda mynediad i'r farchnad gwasanaethau ffrydio byd-eang â phocedi dwfn.

Yn 2021, collodd y BBC ac S4C yr **hawliau darlledu byw ar gyfer gemau rygbi rhyngwladol yr hydref**, a oedd ar gael ar y gwasanaeth tanysgrifio Amazon Prime. Mae Prif Swyddog Gweithredol Rygbi'r Byd, Alan Gilpin, wedi **codi'r posibilrwydd, dro ar ôl tro,** y **gallai gemau Cwpan Rygbi'r Byd y dynion yn y dyfodol fynd y tu ôl i wal dalu**.

Ym mis Mawrth 2025, fe wnaeth y **BBC ac ITV wedi gytuno ar gytundeb pedair blynedd newydd** i Bencampwriaeth y Chwe Gwlad i Ddynion aros ar deledu am ddim tan 2029.

Roedd maniffesto Plaid Cymru 2026 yn dweud y canlynol:

> *dylai digwyddiadau chwaraeon sydd o bwys cenedlaethol i Gymru, fel Rygbi'r Chwe Gwlad, barhau i gael eu darlledu am ddim ar y teledu.*

Nid yw'r ymrwymiad hwn yn y Rhaglen Lywodraethu ddilynol.